



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Adroddiad Blynnyddol 2017-18

## Annual Report



L-L-WYBR  
A RENMIIR

1945

1945

1945

1945

1945

# Cynnwys

4

Rhan 1  
**Adroddiad Strategol** 8

Rhan 2  
**Atebolrwydd** 108

Rhan 3  
**Datganiadau ariannol** 160

# Contents

5

Part 1  
**Strategic Report** 9

Part 2  
**Accountability** 109

Part 3  
**Financial Statements** 161



# Rhan 1 Adroddiad strategol

8

<b>Cyd-destun</b>	<b>12</b>
<b>Rhagair</b>	<b>16</b>
<b>Cipolwg ar y flwyddyn</b>	<b>20</b>
<b>Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg</b>	<b>24</b>
i) Gosod dyletswyddau	26
ii) Gweithredu dyletswyddau	30
iii) Gorfodi dyletswyddau	36
<b>Hybu'r Gymraeg</b>	<b>48</b>
i) Busnesau ac elusennau	50
ii) Polisi	56
iii) Isadeiledd	64
iv) Cyfathrebu	68
<b>Rheoli a gweithredu</b>	<b>74</b>
i) Sylwebaeth ar berfformiad ariannol	76
ii) Materion cydraddoldeb	86
iii) Materion amgylcheddol	90
iv) Materion staff	92
v) Rhyddid gwybodaeth	94
vi) Cwynion yn erbyn y sefydliad	96
<b>Cynlluniau ar gyfer 2018-19</b>	<b>98</b>
<b>Heriau sy'n wynebu'r sefydliad</b>	<b>102</b>

9

<b>Context</b>	<b>13</b>
<b>Foreword</b>	<b>17</b>
<b>Summary of the year</b>	<b>21</b>
<b>Rights to use the Welsh language</b>	<b>25</b>
i) Imposing duties	27
ii) Implementing duties	31
iii) Enforcing duties	37
<b>Promoting the Welsh language</b>	<b>49</b>
i) Businesses and charities	51
ii) Policy	57
iii) Infrastructure	65
iv) Communication	69
<b>Management and operation</b>	<b>75</b>
i) Commentary on financial performance	77
ii) Equality	87
iii) Environment	91
iv) Staffing	93
v) Freedom of information	95
vi) Complaints against the organisation	97
<b>Plans for 2018-19</b>	<b>99</b>
<b>Challenges facing the organisation</b>	<b>103</b>



Ers 1 Ebrill 2018 mae gan fyfyrwyr yng Nghymru hawl  
cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Since 1 April students in Wales have now got legal rights  
to use Welsh.

# Cyd-destun

12

## Miliwn o siaradwyr Cymraeg

**“Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r iaith erbyn 2050.”**

Dyna'r weledigaeth yn y strategaeth Cymraeg 2050 a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2017.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno uchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd o'r iaith ac i greu amodau ffafriol fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio.

Mae hyn yn cynnwys gweithredu i gyflawni'r canlynol:

- cryfhau trosglwyddiad y Gymraeg o fewn y teulu
- datblygu a chynnal sgiliau yn y Gymraeg drwy addysg a hyfforddiant, o'r blynnyddoedd cynnar hyd at addysg ôl-16 a dysgu gydol oes
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu ystod y gwasanaethau Cymraeg a defnydd ohonynt
- cynyddu defnydd o'r iaith yn gymdeithasol
- cefnogi seilwaith economaidd cymunedau Cymraeg
- sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiadau technolegol.

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu sy'n canolbwytio ar y blynnyddoedd 2017-21.

# Context

13

## A million Welsh speakers

**“The Welsh language is one of the treasures of Wales. It is part of what defines us as people and as a nation. Our ambition as Welsh Government is to see the number of people able to enjoy speaking and using Welsh reach a million by 2050.”**

This is the vision outlined in the Cymraeg 2050 strategy published in July 2017.

The strategy presents an ambition to increase the number of Welsh speakers, increase the use of the language and create favourable conditions which will make it easier for people to use Welsh.

This includes taking action to achieve the following:

- reinforce the transmission of the Welsh language within the family
- develop and sustain Welsh language skills through education and training, from the early years to post-16 education and lifelong learning
- increase the use of Welsh in the workplace
- increase the range of Welsh language services and their use
- increase the social use of Welsh
- support the socio-economic structure of Welsh-speaking communities
- ensure that the Welsh language is at the heart of technological developments.

An action plan focusing on 2017-2021 was published.

## Addysg Gymraeg

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd cynllun gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg mewn addysg 2017-21. Dyma'r ddogfen sy'n egluro cynllun y Llywodraeth ar gyfer gwireddu amcanion addysg Gymraeg Strategaeth 2050 ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae'n rhaid i bob cyngor baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sef dogfen yn amlinellu eu cynlluniau ar gyfer addysg cyfrwng Gymraeg. Rhaid i'r cynlluniau osod targedau heriol ar gyfer datblygu addysg Gymraeg. Un o ddyletswyddau Comisiynydd y Gymraeg yw rhoi sylwadau i Lywodraeth Cymru ar gynnwys y cynlluniau hyn. Mewn llythr at Weinidog y Gymraeg ym mis Chwefror 2017, dywedodd y Comisiynydd nad oedd yn gweld sut byddai mwyafri y cynlluniau'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg na'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ychwanegodd na welai sut byddai'r cynlluniau'n cyfrannu'n ystyrlon at gyflawni amcanion y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg.

Mewn ymateb, comisiynwyd adolygiad brys o'r cynlluniau, dan arweiniad Aled Roberts. Yn ei adroddiad a gyflwynwyd ym mis Awst 2017, casglodd Aled Roberts fod nifer o'r cynlluniau yn "wan iawn o ran creu unrhyw alw am addysg Gymraeg" a bod y "gofynion a chanllawiau deddfwriaethol [...] yn hollol annigonol." Gwnaeth ddeunaw argymhelliaid ar gyfer datblygu'r sylfaen iawn i gynllunio addysg Gymraeg. Derbyniwyd ei holl argymhellion ac ym mis Chwefror 2018 cyhoeddwyd ei fod wedi ei benodi am gyfnod o flwyddyn i arwain ar y gwaith o wella'r system.

## Deddfwriaeth

Ym mis Awst 2017 cyhoeddodd y Llywodraeth gynigion ar gyfer Bil newydd y Gymraeg, gan ddechrau ar broses o ymgynghori cyhoeddus. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys nifer o opsiynau ar gyfer y strwythur i hybu a rheoleiddio'r Gymraeg, a'r Llywodraeth yn nodi ei bod yn ffafrio sefydlu Comisiwn i fynd i'r afael â'r gwaith. Roedd hefyd yn cyfeirio at y bwriad i gadw fframwaith safonau'r Gymraeg, ond i ddiwygio'r safonau eu hunain a sut caint eu gosod ar sefydliadau.

Fe ymatebodd y Comisiynydd i'r ymgynghoriad ac mae copi ar ein gwefan.

Cyhoeddodd y Llywodraeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar 24 Ionawr 2018.

## Welsh-medium education

In December 2017, the Welsh Government published its action plan for Welsh in education 2017-21. This document outlines the Government's plan for meeting the Welsh-medium education objectives of the 2050 Strategy for the next five years.

All councils are required to prepare a Welsh in Education Strategic Plan, outlining their plans for Welsh-medium education. The plans must set out challenging targets for developing Welsh-medium education. One of the Welsh Language Commissioner's duties is to comment on the content of these plans to the Welsh Government. In a letter to the Welsh Language Minister in February 2017, the Commissioner said that she could not see how the majority of plans would lead to a significant increase in Welsh-medium education provision nor the numbers of children and young people receiving their education through the medium of Welsh. She added that she could not see how the plans would make a meaningful contribution to meeting the Government's objectives for the Welsh language.

In response, an urgent review of the plans was commissioned, led by Aled Roberts. In his report published in August 2017, Aled Roberts concluded that a number of plans were "very weak in seeking to create any demand for Welsh-medium education" and that the "legislative requirements and guidance [...] are totally inadequate." A total of 18 recommendations were made for developing the correct basis for planning Welsh-medium education. All of his recommendations were accepted and in February 2018 it was announced that he had been appointed to lead the work of improving the system, for a period of 12 months.

## Legislation

In August 2017, the Government announced proposals for a new Welsh Language Bill, starting with a public consultation. The consultation document contained a number of options for the structure of promoting and regulating the Welsh language, with the Government stating that they favoured establishing a Commission to undertake the work. The document also referred to the intention to keep the Welsh language standards' framework, but revising the standards themselves, and how they will be imposed on organisations.

The Commissioner responded to the consultation, which is available on our website.

The Government published the consultation responses on 24 January 2018.

# Rhagair

16

**Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn, rydw i ar ddechrau blwyddyn olaf fy mhenodiad fel Comisiynydd y Gymraeg. Er mai crynodeb o weithgareddau'r flwyddyn aeth heibio sydd rhwng cloriau'r adroddiad, da o beth fydd cymryd cam yn ôl am ennyd, ac edrych ar gyflawniadau heddiw drwy sbectol ddoe.**

Pan ddechreuais yn y rôl yn 2012, doedd hawliau i dderbyn gwasanaethau Cymraeg ddim yn bodoli. Roedd gwasanaethau Cymraeg yn aml yn anghyson - yn amrywio o ardal i ardal, ac yn gyffredinol o ansawdd is na'r Saesneg. Weithiau rodden nhw'n dangos ôl cyfieithu peirianyddol neu dro arall yn wasanaeth oedd yn rhaid aros yn hir amdano. Bellach, mae gan bobl Cymru hawliau eang i ddefnyddio'r iaith gyda dros 100 o sefydliadau cyhoeddus drwy safonau'r Gymraeg, ac mae'r broses o gyflwyno safonau i ragor o sefydliadau'n parhau. Mae'r hawliau hyn yn rhoi sicrwydd i bobl y cânt wasanaeth Cymraeg o ansawdd, ble bynnag yng Nghymru maent yn byw. Un o'r pethau yr wyf fwyaf balch ohonynt yw ymdrechion sefydliadau o bob cwr o Gymru i barchu'r hawliau drwy fynd ati i ganfod ffyrdd o wella eu perfformiad a chyflwyno newidiadau i'r ffordd maent yn gweithio.

Gyda chynlluniau nawr ar y gweill i gyflwyno deddfwriaeth Gymraeg newydd, mae hi'n hollbwysig sicrhau nad yw'r gwleidydd a'r siarad am strwythurau'n arwain at golli momentwm. Mae angen sicrhau mai adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Fesur y Gymraeg a wneir, ac arwain at greu mwy o hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Tra bo sefydliadau cyhoeddus yn ymateb yn dda i ofynion y safonau, rydw i hefyd wedi gweld awydd na welwyd mo'i debyg o'r blaen gan fusnesau, elusennau a sefydliadau trydydd sector i ddatblygu eu defnydd o'r iaith. Wrth ddechrau ar y gwaith o'u perswadio, fe aethom ati i gynnal a chyhoeddi ymchwil yn dangos buddion economaidd y Gymraeg. Wedyn, fe wnaethom ddatblygu gwasanaeth arbenigol i gynghori, addysgu a chefnogi sefydliadau i gyflwyno'r iaith i'w gwasanaethau a gweithgareddau. Erbyn hyn, mae ein Tîm Hybu'n gweithio'n strategol gyda busnesau, mudiadau a chymdeithasau o bob math i'w rhoi ar ben ffordd gyda'u defnydd o'r Gymraeg. Un o ganlyniadau'r gwaith hwn yw bod uwch reolwyr banciau ac archfarchnadoedd bellach yn aelodau o'n fforymau sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod sut i ddatblygu defnydd o'r iaith.

# Foreword

17

**At the time of writing, I am entering my final year as Welsh Language Commissioner. Although this report summarises activities from the past year, it would be worth taking a step back for a second and look at today's achievements through yesterday's lens.**

When I started out in this role in 2012, rights to receive services through the medium of Welsh did not exist. Welsh language services were often inconsistent - varying from one area to the next, and of a lower standard than the English in general. Sometimes they showed signs of machine translation or at other times involved long delays. Now, people across Wales have a broad range of rights to use Welsh with more than 100 public organisations through the Welsh language standards, and the process of introducing standards to more organisations continues. These rights give people assurance that they will receive a quality Welsh language service, wherever in Wales they live. I am especially proud of the efforts of organisations from across Wales to respect these rights by seeking to improve their performance and make changes to their way of working.


With plans now in place to introduce new Welsh language legislation, it is crucial to ensure that politics and discussions about structures do not lead to a loss of momentum. Steps must be taken to ensure that the foundations put in place by the Welsh Language Measure are built upon, leading to creating more rights to use the Welsh language.

Whilst public organisations are responding well to the requirements of the standards, I have also seen businesses, charities and third sector organisations showing an unprecedented enthusiasm in developing their use of Welsh. As we began our work of persuading them, we conducted and published research showing the economic advantages of the Welsh language. Then, we developed a specialist service to advise, educate and support organisations to introduce the language to their services and activities. Our Promotion Team now works strategically with a range of businesses, organisations and societies to guide them on their use of Welsh. One of the outcomes of this work is that senior managers of banks and supermarkets now sit on our forums which meet regularly to discuss how to develop the use of Welsh.

Yn ddiweddar, fe edrychais yn ôl ar rai datganiadau a chyhoeddiadau'r chwe blynedd diwethaf, a difyr oedd darllen y geiriau hyn o 2013, "Mae hi'n bwysig nad yw'r iaith yn cael ei hynysu i un darn o ddeddfwriaeth. Yn hytrach, dylai gael ei phrif-ffrydio a dod yn ystyriaeth ganolog mewn polisiau sy'n ymwnud â'r economi, cynllunio, cyflawnder cymdeithasol, addysg, iechyd ac yn y blaen." Mae'n anodd credu erbyn hyn, efallai, ond yn ôl yn y cyfnod yma, yr ateb a gawn yn aml i sylwadau o'r fath oedd y dylwn fodloni ar Fesur y Gymraeg a pheidio â gofyn am weld y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn meysydd eraill. Er bod mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod y Gymraeg wrth galon penderfyniadau polisi, rydyn ni wedi ennill tir yn sylweddol. Mae ein gwaith gyda'r Gymdeithas Alzheimer's i geisio gwneud y Gymraeg yn ganolog i wasanaethau gofal dementia yn brawf bod y neges o brif-ffrydio yn treiddio i feddylfryd a gwaith sefydliadau eraill yn ogystal.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fe fûm i'n cadeirio Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr laith. Cymdeithas a sefydlwyd gan griw ohonom yn Nulyn dros bum mlynedd yn ôl gyda'r nod gwreiddiol o sefydlu rhwydwaith cyswllt i rannu syniadau a phrofiadau. Ers hynny, mae'r Gymdeithas wedi tyfu i fod yn rhywbeth llawer iawn mwy ymarferol a dylanwadol. Braint aruthrol i mi fis Mai'r llynedd oedd croesawu aelodau'r gymdeithas a'u staff yma i Gymru i'n cynhadledd flynyddol lle buom yn trafod ac yn dathlu sefyllfa'r Gymraeg - ym myd y gyfraith, addysg, yn y gweithle ac yn ddiwylliannol gymdeithasol. Fis Mai eleni byddaf yn ildio'r gadeiryddiaeth; ac rwy'n siŵr y bydd y cadeirydd newydd, Rónán Ó Domhnaill o Iwerddon, yn parhau i ddatblygu'r Gymdeithas a'r cydweithio clos sydd rhwng y gwledydd.

Ymhnen blwyddyn, byddaf wedi trosglwyddo'r fantell arall i Gomisiynydd newydd y Gymraeg. Ond, mae yna ambell beth ar ôl y bwriadaf eu cyflawni cyn hynny. Y mwyaf arwyddocaol, mae'n debyg, fydd gosod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau yn y maes iechyd a sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth yng nghontractau newydd meddygon teulu am y tro cyntaf. Un o'r pynciau sydd agosaf at fy nghalon, ac sydd wedi fy sbarduno yn y gwaith dros y blynnyddoedd diwethaf, yw sicrhau cyflawnder i siaradwyr Cymraeg. Yn arbennig felly i'r unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas, lle mae gallu defnyddio'r iaith yn fater o angen gwirioneddol. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu a mhŵer i sicrhau bod yr angen hwn yn cael ei adlewyrchu yn y gwasanaeth iechyd a gofal y maent yn ei dderbyn; a bod urddas cleifion yn cael ei barchu.




**Meri Huws**  
**Comisiynydd y Gymraeg**  
**Ebrill 2018**

Recently, I looked back at some statements and press releases made over the past six years, and it was interesting to read these words from 2013, "It is important that the language is not isolated to one piece of legislation. Rather, it should be mainstreamed and be a central consideration in policies involving the economy, planning, social justice, education, health and so forth." It might be difficult to imagine now but, back then, the answer I would be given often to such comments was that I should be satisfied with the Welsh Language Measure and not to ask for the Welsh language to be included in other areas. Although there is more work to be done in ensuring that the Welsh language is at the heart of policy decisions, we have gained considerable ground. Our work with the Alzheimer's Society to try to make the Welsh language a central part of dementia care services is one example where the concept of mainstreaming the language has filtered through to the mindset and work of other organisations.

For the last two years, I have been chair of the International Association of Language Commissioners. This association was formed by a group of us in Dublin over five years ago with the original aim of establishing a network to share ideas and experiences. Since then, the Association has grown to become far more practical and influential. I had the enormous privilege last May of welcoming members of the association and their staff here to Wales to our annual conference where we discussed and celebrated the position of the Welsh language - in law, education, the workplace and in a socio-cultural context. This May I will relinquish my chairmanship; and I am sure that the new chair, Rónán Ó Domhnaill from Ireland, will continue to develop the Association and the close collaboration between the countries.

In a year's time I will have passed on the other baton to a new Welsh Language Commissioner. But, there are still a few things I intend to accomplish before then. The most significant, probably, will be placing Welsh language standards on health organisations and ensuring that the Welsh language is a consideration in new GP contracts for the first time. One of the topics closest to my heart, and which has motivated me in my work, is ensuring justice for Welsh speakers. Especially so for the most vulnerable members of society, where using the language is a real necessity. In the coming year, I will do everything within my ability and power to ensure that this need is reflected in the health and care service they receive; and that patients' dignity is respected.



**Meri Huws**  
**Welsh Language Commissioner**  
**April 2018**

# Cipolwg ar y flwyddyn

20

## Gosod

Gosod safonau ar  
**25**  
o sefydliadau addysg



## Gweithredu

Arolygu sut oedd  
**130**  
o sefydliadau'n defnyddio'r Gymraeg



## Gorfodi

Dyfarnu ar  
**58**  
ymchwiliad




## Hybu

Cyhoeddi modiwl ar-lein i **annog defnydd** o'r Gymraeg mewn chwaraeon



## Dylanwadu

Cyflwyno **argymhellion polisi** rhagweithiol am y Gymraeg yn y blynnydoedd cynnar ac mewn rhagleni prentisiaethau



## Datblygu

Cynnal **cynhadledd** Cymdeithas Ryngladol y Comisiwnyr Iaith yng Nghymru



## Cyfathrebu

Negeseuon Twitter yn cael  
**1.3m**  
o argraffiadau.



## Darparu

Dosbarthu  
**66,363**  
o fathodynnau a chortynnau gwddf Iaith Gwaith



# Summary of the year

21


## Imposing

Imposed standards on  
**25**  
educational organisations



## Implementing

Reviewed the use of Welsh in  
**130**  
organisations



## Enforcing

Determined  
**58**  
investigations



## Promoting

Published an online module to **encourage the use** of Welsh in sport



## Influencing

Presented proactive **policy recommendations** for the Welsh language in the early years and apprenticeship programmes



## Developing

Hosted the International Association of Language Commissioners' **conference** in Wales



## Communicating

**1.3m**  
Twitter impressions



## Providing

Distributed  
**66,363**  
Iaith Gwaith badges and lanyards





Mae dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i ddarparu  
gwasanaeth Cymraeg.

Public organisations have a duty to provide a Welsh  
language service.

# Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg

24

Mae'r Comisiynydd yn gosod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau, sef rhestr o'r pethau y mae'n rhaid iddynt eu darparu a'u gwneud yn Gymraeg. Mae yna safonau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, gweithredu mewnol, llunio polisiau, hybu defnydd ehangach o'r Gymraeg a chadw cofnodion.

Mae'r Comisiynydd yn sicrhau bod sefydliadau'n defnyddio'r Gymraeg fel dylent, gan eu rhoi ar ben ffordd gyda dehongli'r safonau, annog cydymffurfiaeth a rhannu arferion da. Mae hi hefyd yn eu gorfodi i wella'r ffordd maen nhw'n gweithredu, os oes angen.

Mae rhai sefydliadau'n gweithredu cynlluniau iaith yn hytrach na safonau. Gyda'r rhain hefyd, mae'r Comisiynydd yn hybu gweithredu'n briodol fel bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn ddidrafferth.

**Rydw i am weld Cymru lle gall pobl weld, clywed a defnyddio'r iaith ym mhobman o'u cwmpas.  
Gwlad lle mae hi yr un mor rhwydd defnyddio'r Gymraeg ag yw hi i ddefnyddio'r Saesneg, a lle mae gan bobl hyder mewn gwasanaethau Cymraeg.**

**Mae gosod safonau a sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu fel dylent yn rhan ganolog o wireddu'r amcan hwn.**

Meri Huws

# Rights to use the Welsh language

25

The Commissioner places Welsh language standards on organisations, which is a list of the things they must provide and undertake in Welsh. There are standards for service delivery, internal operations, policy making, promoting the wider use of Welsh and record keeping.

The Commissioner ensures that organisations use the Welsh language as they should, providing them with guidance on interpreting the standards, encouraging compliance and sharing good practice. She also requires them to improve their way of working, where needed.

Some organisations implement language schemes rather than standards. With these also, the Commissioner promotes appropriate action so that people can use the Welsh language easily.

**I want to see a Wales where people can see, hear and use the language everywhere around them. A country where it is as easy to use Welsh as it is English, and where people have confidence in Welsh language services.**

**Placing standards and ensuring that organisations operate as they should is a central part of meeting this objective.**

Meri Huws

# Gosod dyletswyddau

Gosod safonau ar

**25**

o sefydliadau yn y maes addysg



Cyfarfodydd unigol gyda **phob sefydliad** sy'n newydd i'r drefn safonau



Cychwyn ar ymgynghoriad ar **god ymarfer** sy'n helpu sefydliadau i ddehongli safonau



**100%**

yn dweud bod y sesiynau brifio yn 'dda iawn' neu'n 'dda'



**93%**

yn dweud bod ganddynt well dealltwriaeth ar ôl bod yn sesiynau brifio'r Tîm Gosod Safonau



Cytuno

**8**

cynllun iaith newydd neu ddiwygiedig



# Imposing duties

Imposed standards on

**25**


educational institutions



Individual meetings with **every organisation** new to the standards



Launched a consultation on a **code of practice** to help organisations interpret the standards



**100%**

said that the briefing sessions were 'very good' or 'good'



**93%**

said they had a better understanding of the standards after attending our briefing sessions



Agreed

**8**

new or revised language schemes



### Hawliau newydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn colegau a phrifysgolion

Gosod safonau ar y sector addysg oedd gwaith mawr y Tîm Gosod yn ystod 2017-18. Mae yna nifer o gamau mae'n rhaid eu dilyn wrth osod safonau ar sefydliadau, ac mae cyfathrebu effeithiol yn gwbl hanfodol i sicrhau bod sefydliadau'n deall beth fydd angen iddynt ei wneud wrth weithredu'r safonau.

28

Cafodd Rheoliadau Rhif 6, sef y safonau ar gyfer y sefydliadau hyn, eu cymeradwyo mewn pleidlais gan y Cynulliad ar 31 Ionawr 2017. Roedd hyn yn galluogi'r Comisiynydd i ddechrau ar y gwaith o osod y safonau.

- Ym mis Mawrth 2017 fe gynhaliodd sesiynau briffio ar gyfer y sefydliadau fel grŵp, ac ar ôl trafod â phob sefydliad yn unigol.
- Rhoddodd hysbysiad cydymffurfio drafft iddynt ym mis Mai 2017 yn nodi beth fyddai'r gofynion arnynt. Bu cyfnod o wyth wythnos o ymgynghori ar yr hysbysiadau cydymffurfio drafft, lle roedd gan sefydliadau gyfle i ddweud beth, yn eu barn nhw, oedd yn rhesymol a chymesur iddynt ei wneud yn Gymraeg.
- Yn dilyn yr ymgynghori a'r negodi, rhoddodd y Comisiynydd hysbysiadau cydymffurfio terfynol i'r sefydliadau ym mis Medi 2017 oedd yn rhoi 6 mis iddynt i baratoi cyn oedd y safonau'n dod yn weithredol.
- Daeth y safonau'n weithredol ar 1 Ebrill 2018.

### Uchafbwyntiau eraill

- Cynnal cyfarfodydd unigol â 100% o'r sefydliadau y gosodwyd safonau o'r newydd arnynt.
- Ymgynghori ar god ymarfer drafft i safonau sydd wedi eu gosod ar gynghorau sir, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau parciau cenedlaethol, sef dehongliad y Comisiynydd o'r safonau a chanllawiau ymarferol i alluogi sefydliadau i ddeall y gofynion yn well.
- Creu canllaw a thempled ar gyfer cynlluniau iaith cynghorau tref a chymuned er mwyn symleiddio'r broses, ceisio cysondeb o fewn y sector a chynyddu'r nifer o gynghorau tref a chymuned sydd wedi ymrwymo i gynnig gwasanaethau Cymraeg.
- Cychwyn ar y broses o osod safonau ar sefydliadau yn y sector iechyd, wedi i'r Cynulliad gymeradwyo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) ar 20 Mawrth 2018.

### New rights to use the Welsh language in colleges and universities

The Standards Imposition Team's major project in 2017-18 was imposing standards on the education sector. There are a number of steps which must be taken when imposing standards on organisations, and effective communication is crucial to ensure that organisations understand what they will need to do when implementing the standards.

29

Regulations No. 6, the standards for these organisations, were approved by the Assembly on 31 January 2017. This enabled the Commissioner to start the work of imposing the standards.

- In March 2017 briefing sessions were held for the organisations as a group, and then individual discussions with each organisation.
- A draft compliance notice was given to each organisation in May 2017, indicating their requirements. An 8-week consultation took place on the draft compliance notices, where organisations were given the opportunity to state what they believed to be reasonable and proportionate for them to do in Welsh.
- Following the consultation and negotiation, the Commissioner issued final compliance notices to the organisations in September 2017, which gave them 6 months to prepare before the standards came into force.
- The standards came into force on 1 April 2018.

### Other highlights

- Held individual meetings with 100% of organisations on which new standards were imposed.
- Consulted on a draft code of practice for standards imposed on county councils, Welsh Government and national park authorities, namely the Commissioner's interpretation of the standards and practical guide to allow organisations to improve their understanding of the requirements.
- Developed a guidance and template for town and community councils' language schemes in order to streamline the process, seek consistency within the sector and increase the number of town and community councils committed to offering services in Welsh.
- Began the process of imposing standards on organisations in the health sector, after the Assembly approved the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations on 20 March 2018.

# Gweithredu dyletswyddau

30

Cyhoeddi  
**adroddiad arolygon** yn  
dangos bod  
gwasanaethau  
Cymraeg yn  
gwella



Yn sgil cynnal gweithdai  
am hybu gwasanaethau  
nododd

**93%**



o'r ymatebwyr bod y cynnwys yn  
dda neu ardderchog a nododd  
88% y byddai'r gweithdai yn  
ddefnyddiol neu ddefnyddiol iawn  
i'w gwaith nhw.


Arolygu  
**10**  
math o  
wasanaethau  
a ddarparwyd  
gan 130 o  
sefydliadau



Cynnal sesiynau  
**ymgysylltu**  
gyda gwahanol  
garfannau  
o siaradwyr  
Cymraeg ar draws  
Cymru



Cyfweld  
**18**  
o garcharorion fel  
rhan o brosiect yn  
edrych ar hawliau  
a phrofiadau  
carcharorion



Cyflwyno  
sesiynau brifio  
am gydymffurfio  
a gorfodi i  
**22**  
o staff colegau  
a phrifysgolion



Cyhoeddi  
**6**  
astudiaeth  
achos o arferion  
llwyddiannus y  
gall sefydliadau  
eu hefelychu



Cynnal  
**50**  
o gyfarfodydd un-i-  
un gyda sefydliadau i  
drafod eu perfformiad



# Implementing duties

31

Published a  
**survey report**  
showing that  
Welsh language  
services were  
improving



**93%**

of those who  
attended workshops  
concentrating on promoting  
Welsh language services said  
they were either good or excellent  
and 88% said that the workshops  
would be useful to their work.



Examined  
**10**  
types of  
services  
provided by 130  
organisations



Held  
**engagement sessions** with  
various groups of  
Welsh speakers  
across Wales



Interviewed  
**18**  
prisoners as  
part of a project  
examining  
the rights and  
experiences of  
prisoners



Held briefing  
sessions on  
compliance and  
enforcement for  
**22**  
college and  
university staff



Published  
**6**  
case studies  
on successful  
practices which  
can be emulated  
by organisations



Held  
**50**  
one-to-one meetings  
with organisations  
to discuss their  
performance



### Gwella cydymffurfiaeth a hybu defnyddio'r Gymraeg

Ym mis Hydref 2017 fe gyhoeddwyd 'Hawliau'n Gwreiddio', sef adroddiad sy'n casglu sut mae sefydliadau cyhoeddus yn perfformio yn unol â'r safonau neu â'u cynlluniau iaith. Fel mae teitl yr adroddiad yn ei awgrymu, fe welwyd gwella yn y ffordd oedd sefydliadau'n darparu gwasanaethau Cymraeg yn gyffredinol, er bod gwaith pellach i'w wneud o ran gwella ansawdd ac argaeedd gwasanaethau Cymraeg. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd hybu gwasanaethau. Rhoddyd sylw penodol hefyd i'r strategaethau hybu y mae'r cynghorau sir ac awdurdodau parciau cenedlaethol wedi eu cyhoeddi o dan y safonau hybu.

32

Cynhaliodd swyddogion y Timoedd Cydymffurfio gyfres o 6 gweithdy a thros 50 o gyfarfodydd adborth gyda sefydliadau'n unigol er mwyn trafod canfyddiadau'r adroddiad a galluogi sefydliadau i wneud gwelliannau, casglu gwybodaeth am broblemau ac arferion llwyddiannus.

Gan baratoi ar gyfer adroddiad eleni, fe gwblhawyd y gwaith o brofi 10 math o wasanaethau gyda thros 130 o sefydliadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Gwasanaethau fel gohebiaeth, gwasanaeth ffôn, peiriannau hunanwasanaeth, derbynfeydd, cyfarfodydd, arwyddion ac yn y blaen. Yn ogystal, arolygwyd sut mae sefydliadau'n cadw golwg ar eu perfformiad eu hunain ac yn cofnodi hynny. Cwblhawyd astudiaethau thematig er mwyn deall sut mae sefydliadau'n cydymffurfio â safonau sy'n delio â chontractau, grantiau, polisi a gweinyddu mewnol.

Cynhalwyd 14 grŵp ymgysylltu gyda gwahanol garfannau o siaradwyr Cymraeg er mwyn rhoi cyfle i bobl fynegi barn am ansawdd a phrofiadau o wasanaethau Cymraeg. Aed ati i gyrraedd trawstoriad eang o gymdeithas. Cynhalwyd pedair sesiwn 'cysgodi defnyddwyr' hefyd, sef edrych ar ymateb pobl i wahanol senarios er mwyn gweld pa ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad a phrofiadau wrth ddefnyddio gwasanaethau. Yn ogystal, fe holwyd sampl o 500 o siaradwyr Cymraeg am eu barn a phrofiadau o wasanaethau Cymraeg drwy Arolwg Omnibws.

Caiff canlyniadau'r gwaith profi, yr astudiaethau ac ymateb y grwpiau ymgysylltu eu cyhoeddi yn ystod haf 2018.

### Improving compliance and promote the use of Welsh

In October 2017 'Rights taking root' was published, a report concluding how public organisations are performing in accordance with the standards or their language schemes. As the title of the report suggests, improvements were seen in the way in which organisations provided Welsh language services in general, although further work was needed in terms of improving their quality and availability.

33

The report highlighted the importance of promoting services. Particular emphasis was also placed on the promotion strategies published by the county councils and national park authorities under the promotion standards.

Officers from the Compliance Teams held a series of 6 workshops and over 50 feedback meetings with individual organisations to discuss the findings of the report and allow organisations to make improvements, collect information on issues and successful practices.

Looking ahead to this year's report, ten types of services were tested with over 130 public bodies. Services such as correspondence, telephone service, self-service machines, reception areas, meetings, signage etc. In addition, the way in which organisations monitor and record their own performance was examined. Thematic studies were completed to understand how organisations are complying with standards relating to contracts, grants, policy and internal administration.

Fourteen engagement groups were held with different cohorts of Welsh speakers in order to allow people to share views on the quality and experience of Welsh language services. Efforts were made to reach a cross-section of society. Four 'user shadowing' sessions were held, looking at people's response to different scenarios in order to ascertain which factors affect behaviours and experiences when using services. In addition, a sample of 500 Welsh speakers were surveyed on their views and experience of Welsh language services through the Omnibus Review.

The results of the testing, studies and engagement group responses will be published during the summer of 2018.

### Uchafbwyntiau eraill

- Mynd ati i baratoi darn o gyngor i gefnogi gweithrediad strategaethau hybu'r Gymraeg yr awdurdodau lleol a'r awdurdodau parciau cenedlaethol.
- Casglu a chyhoeddi engrifftiau o arferion llwyddiannus gan sefydliadau wrth weithredu safonau. Mae 6 astudiaeth achos bellach wedi eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd, a'r rhai diweddaraf yn ymwneud â hybu gwasanaethau a gwella prosesau reciwtio er mwyn denu siaradwyr Cymraeg.
- Parhau gyda'r gwaith o gynnal awdit o'r anawsterau sy'n wynebu sefydliadau wrth gofnodi a rhannu dewis iaith yn fewnol ac yn allanol, gyda'r bwriad o sefydlu grŵp i ddod o hyd i ddatrysiau.
- Dechrau ar brosiect sy'n edrych ar beth yw hawliau carcharorion i ddefnyddio'r Gymraeg a chanfod i ba raddau mae'r hawliau hynny'n cael eu gweithredu. Fel rhan o'r gwaith, cyfwelwyd â charcharorion i ganfod beth yw realiti eu profiad nhw. Cyflwynwyd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn rhoi argraffiadau cynnar o'r sefyllfa. Bydd yr arolwg yn parhau drwy gynnal cyfweliadau â sefydliadau sy'n gysylltiedig â charchardai, a bwriedir cyhoeddi adroddiad yn hydref 2018.

34

### Other highlights

- Prepared advice to support the implementation of local authority and national park Welsh language promotion strategies.
- Collected and publish examples of successful practices by organisations in implementing the standards. Six case studies have now been published on the Commissioner's website, with the most recent involving promoting services and improving recruitment processes in order to attract Welsh speakers.
- Continued with the work of undertaking an audit of the difficulties facing organisations in recording and sharing preferred language internally and externally, with the aim of establishing a group to find solutions.
- Launched a project looking at the rights of prisoners to use Welsh and find to what extent those rights are upheld. As part of the work, prisoners were interviewed in order to discover the reality of their experience. Oral and written evidence was given to the Welsh Affairs Select Committee inquiry, providing early impressions of the situation. The survey will continue by conducting interviews with organisations linked to prisons, and a report is due to be published in Autumn 2018.

35

# Gorfodi dyletswyddau

**153**

Cyfanswm o cwyn ddilys wedi eu derbyn – 110 cwyn ddilys am safonau'r Gymraeg a 43 cwyn ddilys am Gynlluniau Iaith Gymraeg



36


Agor

**79**  
ymchwiliad



Dyfarnu ar

**58**  
ymchwiliad




Rhoi **cyngor** i ddau gwmni preifat am ryddid unigolion yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg



Roedd

**13%**  
o'r cwynion  
dilys ynglŷn â  
'gwasanaethau  
ffôn'



Roedd

**23%**  
o'r cwynion dilys  
ynglŷn â 'gohebiaeth'



# Enforcing duties

**153**

A total of **153** valid complaints were upheld - 110 valid complaints on the Welsh language standards and 43 valid complaints on Welsh Language Schemes



37


Opened

**79**  
investigations



Determined


**58**  
investigations



Advised two private companies on individuals' freedom in Wales to use the Welsh language



**13%**  
of valid complaints  
involved 'telephone  
services'




**23%**  
of valid  
complaints involved  
'correspondence'



Statws Ymchwiliadau


Sefydliadau sy'n gweithredu safonau



- Nifer yr ymchwiliadau oedd ar agor ar 1 Ebrill 2017 (wedi trosglwyddo o 2016- 17)
- Nifer o ymchwiliadau i gwynion gafodd eu hagor
- Nifer y penderfyniadau a wnaed i beidio ymchwilio i gwynion
- Nifer yr ymchwiliadau gafodd eu terfynu cyn dyfarnu
- Nifer yr ymchwiliadau oedd yn dal ar agor 31 Mawrth 2018


Status of investigations

Organisations subject to standards




- Investigations open on 1 April 2017 (transferred from 16-17)
- Investigations to complaints opened
- Decisions not to investigate complaints
- Investigations terminated before a determination
- Investigations still ongoing on 31 March 2018

Sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith



- Nifer yr ymchwiliadau oedd ar agor ar 1 Ebrill 2017 (wedi trosglwyddo o 2016-17)
- Nifer o ymchwiliadau i gwynion gafodd eu hagor
- Nifer y penderfyniadau a wnaed i beidio ymchwilio i gwynion
- Nifer yr ymchwiliadau oedd dal ar agor ar 31 Mawrth 2018

Organisations implementing Welsh language schemes



- The number of investigations open on 1 April 2017 (transferred from 16-17)
- The number of investigations to complaints opened
- The number of decisions made not to investigate complaints
- The number of investigations still ongoing on 31 March 2018
- The number of investigations terminated before a determination

## Gorfodi dyletswyddau


### Defnyddio pwerau gorfodi

Yn ystod 2017-18, dyfarnodd y Comisiynydd ar 58 ymchwiliad. Ambell waith bydd y Comisiynydd yn ymchwilio i fwy nag un safon o fewn ymchwiliad, ac yn ystod y flwyddyn gwnaed 156 dyfarniad mewn perthynas â'r safonau a ymchwiliwyd.

O'r safonau y dyfarnwyd y bu methiant, dyma'r camau a gymrodd y Comisiynydd:


40

#### Camau gorfodi



O'r safonau y dyfarnwyd nad oedd methiant, dyma'r camau a gymrodd y Comisiynydd:

#### Camau a gymerwyd



## Enforcing duties


### Using powers of enforcement

During 2017-18, the Commissioner determined 58 investigations. Sometimes the Commissioner will investigate more than one standard during an investigation, and during the year 156 determinations were made in relation to the standards investigated.

Of those standards where a failure was determined, here are the steps taken by the Commissioner

41

#### Enforcement action




Of those standards where no failure was determined, here are the steps taken by the Commissioner

#### Steps taken



## Gorfodi dyletswyddau

### Natur y gwasanaethau ddyfarnwyd arnynt



42

\* Noder hefyd, o'r 43 cwyn a dderbyniwyd am weithrediad sefydliadau â chynlluniau iaith Gymraeg, bod natur y gwasanaeth y cwynwyd amdano yn gyffredinol debyg i'r uchod.

### Ymchwiliadau a agorwyd

Gall y Comisiynydd gynnal ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn neu gall benderfynu cynnal ymchwiliad os oes dystiolaeth sy'n creu amheuaeth nad yw sefydliad yn cydymffurfio â safon.


Nod y Comisiynydd yw gwella argaeedd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg, a dyma ddwy enghraifft o sut arweiniodd ymchwiliadau at wella gwasanaethau Cymraeg.

### Gwersi nofio

- Cynnal ymchwiliad i gydymffurfiaeth 17 cyngor â'r ddyletswydd i ddarparu gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dyfarnu bod methiant i gydymffurfio â'r safonau perthnasol.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r cynghorau baratoi cynlluniau gweithredu er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.
- Swyddogion y Comisiynydd yn cwrdd â rheolwyr hamdden a swyddogion iaith y cynghorau a Nofio Cymru i'w helpu i gydymffurfio yn y dyfodol.
- Cymeradwyo pob un o'r cynlluniau gweithredu.
- Mae cynghorau sir nawr yn cymryd camau i gynyddu argaeedd gwersi nofio Cymraeg ac yn cynyddu'r gwaith o'u hybu a'u hyrwyddo.

## Enforcing duties

### The nature of services determined



43

\* Also note, of the 43 complaints about organisations' implementation of Welsh language schemes, the nature of services complained about were generally similar to the above.

### Investigations opened

The Commissioner may conduct an investigation after receiving a complaint. She may also conduct an investigation at her own discretion if there is evidence which raises doubts about an organisation's compliance with a standard.

The Commissioner aims to improve the availability and quality of Welsh language services, and here are two examples of how investigations led to improving Welsh language services:

### Swimming lessons

- The Commissioner held an investigation into the compliance of 17 councils with the duty to provide swimming lessons through the medium of Welsh.
- She determined that there was a failure to comply with the relevant standards.
- She required councils to prepare action plans to prevent the continuation or repetition of the failure.
- The Commissioner's officers met with councils' leisure managers and language officers, and Swim Wales, to help them with compliance in the future.
- Each action plan was approved.
- County councils are now taking steps to increase the availability of swimming lessons in Welsh and increase their promotion.

**Peiriannau hunanwasanaeth**

- Cynnal ymchwiliad a dyfarnu bod sefydliadau'n methu â chydymffurfio â'u dyletswydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar beiriannau hunanwasanaeth.
- Rhai sefydliadau heb sylweddoli bod gosod Saesneg fel iaith ddiofyn ar beiriant, gyda dewis i newid iaith i'r Gymraeg, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Gosod camau gorfodi ar sefydliadau.
- Erbyn hyn, maent wedi cymryd camau er mwyn newid iaith ddiofyn eu peiriannau hunanwasanaeth i'r Gymraeg neu gynnig dewis iaith clir wrth ddechrau defnyddio'r peiriant.

**Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg**

Ni dderbyniwyd ceisiadau swyddogol i gynnal ymchwiliad i achosion o ymyrraeth â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, hynny yw ceisiadau gan rywun a effeithiwyd yn uniongyrchol arno gan yr ymyrraeth; ond fe ystyriwyd dau achos sy'n berthnasol i'r mater yma:

Roedd un achos yn ymwneud â phryderon fod cangen o siop gadwyn wedi rhoi cyfarwyddyd i'w staff i siarad Saesneg yn y gwaith, gan gynnwys mewn sgyrsiau personol. Roedd y llall yn ymwneud â honiadau fod rheolwr cwmni cynnal a chadw awyrennau wedi rhoi cyfarwyddyd i staff beidio â siarad Cymraeg ym mhresenoldeb aelodau staff di-Gymraeg.

Yn y ddau achos, rhoddwyd cyngor i'r cwmniau yn eu hatgoffa o'r cymalau perthnasol yn Mesur y Gymraeg a'r Ddeddf Hawliau Dynol, a gofyn iddynt gymryd camau i sicrhau bod eu staff yn ymwybodol y cânt ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Ers 2012, mae'r Comisiynydd wedi derbyn 27 cais sy'n berthnasol i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. O'r rhain, mae wedi cynnal 4 ymchwiliad. Y prif reswm pam na all gynnal ymchwiliad i nifer uwch o geisiadau yw nad ydynt yn cwrdd â gofynion y Mesur, fel arfer golyga hyn fod y cais wedi dod gan rywun na effeithiwyd arno'n uniongyrchol.

**Self-service machines**

- The Commissioner held an investigation and determined that organisations failed with their duty to treat the Welsh language no less favourably than English with regard to self-service machines.
- Some organisations had not realised that setting English as the default language on machines, with an option to switch to Welsh, treated Welsh less favourably than English.
- The Commissioner placed enforcement actions on organisations.
- Now, organisations have taken steps to change the default language of their self-service machines to Welsh or offer a clear language choice when starting to use the machine.

**Freedom to Use Welsh**

There were no official applications to investigate interference with the freedom to use Welsh, that is applications from those directly affected by the interference; but two cases relevant to this matter were considered:

One case related to concerns that a branch of a retail chain had directed staff to speak English at work, including personal conversations. The second case related to allegations that an aviation maintenance company had directed staff not to speak Welsh in the presence of non-Welsh speaking members of staff.

In both cases, the Commissioner gave advice to the companies reminding them of the relevant clauses in the Welsh Language Measure and the Human Rights Act, and asked them to take steps to ensure that their staff were aware of their right to use the Welsh language at work.

Since 2012, the Commissioner has received 27 applications relevant to interference with the freedom to use Welsh. Of these, she has carried out 4 investigations. The main reason for not being able to investigate a higher number of applications is that they do not meet the requirements of the Measure. This usually means that the application was made by someone not directly affected by it.



Lansiwyd modiwl y Gymraeg mewn chwaraeon ym mis Mawrth.

Welsh language in sports module was launched in March.

# Hybu'r Gymraeg

48

Mae gosod, gweithredu a gorfodi safonau oll yn ffyrrd o hybu'r iaith – drwy gynyddu defnydd ohoni a thrwy greu galw am weithlu sy'n gallu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Yn yr adran yma, canolbwytir ar weithgareddau eraill lle mae'r Comisiynydd yn hybu defnydd o'r Gymraeg: gyda busnesau a sefydliadau trydydd sector, drwy ddylanwadu ar yr ystyriaeth o'r Gymraeg mewn penderfyniadau polisi, drwy gydlyn a datblygu isadeiledd yr iaith a thrwy weithgareddau cyfathrebu.

Rydw i wastad wedi edrych ar rôl Comisiynydd y Gymraeg fel un driphlyg – lle mae'r gorfodi'n digwydd law yn llaw â'r hybu a'r dylanwadu.

Drwy gymell a chefnogi defnydd o'r iaith a thrwy annog y llunwyr polisi i ystyried y Gymraeg yn eu penderfyniadau, fe welwn Cymru'n datblygu'n wlad lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Meri Huws

# Promoting the Welsh language

49

Imposing, implementing and enforcing standards are all means of promoting the language – by increasing its use and creating a demand for a workforce able to provide services through the medium of Welsh. In this section, we focus on other activities where the Commissioner promotes the use of Welsh: with businesses and third sector organisations, by influencing consideration of the Welsh language in policy decisions, by coordinating and developing language infrastructure and through communication.

I have always considered the role of Welsh Language Commissioner to be three-fold – where enforcement happens alongside promotion and influence.

By motivating and supporting the use of the language and by encouraging policy makers to consider the Welsh language in their decisions, we will see Wales develop into a country where people can use Welsh in every facet of their lives.

Meri Huws

# Busnesau ac elusennau

50



Lansio modiwl i hybu defnydd o'r iaith wrth hyfforddi **chwaraeon**

**198**

o fusnesau ac elusennau wedi defnyddio'r teclyn hunanasesu er mwyn cynllunio i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg



Cynnal hyfforddiant ar gyflwyno'r Gymraeg i 73 cynrychiolydd o



**60**  
sefydliad

Roedd

**100%**

yn dweud bod y sesiynau hyfforddiant yn dda neu'n dda iawn



Cyhoeddi canllaw defnyddio'r Gymraeg ar **gyfryngau cymdeithasol**



Cyhoeddi canllaw ystyried y Gymraeg mewn ceisiadau **contract a grant**



Sefydlu **cylchlythyr chwarterol** i fusnesau ac elusennau gyda newyddion a gwybodaeth fuddiol



Dros **74,000** o argraffiadau i ymgwrch hyrwyddo'r modiwl chwaraeon ar Twitter



**122**

o fusnesau ac elusennau'n defnyddio'r gwasanaeth prawfdarllen am ddim



# Businesses and charities

51



Launched a **module** to promote the use of Welsh in **sports** coaching



**198**

businesses and charities used the self-assessment tool to plan to use more Welsh



Delivered training on introducing the Welsh language to 73 representatives from

**60**  
organisations

**100%**

said that the training sessions were good or very good



Published a guide on using the Welsh language on **social media**



Published a guide on Welsh language considerations in **contract and grant** applications



Established a **quarterly newsletter** for businesses and charities with useful news and information




Over **74,000** Twitter impressions for the campaign to promote the sports module



**122**

businesses and charities used the free proofreading service



### Modiwl chwaraeon

Cydweithiodd y Comisiynydd gyda Chwaraeon Cymru i ddatblygu modiwl ar-lein i annog arweinwyr chwaraeon cymunedol i ddefnyddio gymaint o Gymraeg ag y gallant ar y meysydd chwarae.

Bydd y modiwl yn cael ei ddefnyddio gan wahanol gymdeithasau a champau, ac mae Undeb Rygbi Cymru, Criced Cymru, y Gweilch yn y Gymuned ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru eisoes wedi ymrwymo i ddefnyddio'r modiwl yn eu rhagleni hyfforddi.

Cafodd y fenter ei chefnogi gan y chwaraewyr rygbi cenedlaethol Rhys Patchell a Ken Owens a hyfforddwyr blaenwyr Cymru Robin McBryde, yn ogystal â'r comedïwr o Gaerdydd Mike Bubbins. Cafodd y modiwl ei lansio yng nghwmni Mike Bubbins ac aelodau Clwb Rygbi Cymry Caerdydd dan 8 a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn adeilad Chwaraeon Cymru. Gellir dod o hyd i'r modiwl ar wefan atebionclwb.cymru.

Roedd ystadegau Twitter y cyfrif @Hybu\_Cymraeg, sef cyfrif ar gyfer gwaith y Comisiynydd gyda busnesau a sefydliadau trydydd sector, yn dangos dros 28,000 o argraffiadau i'r trydariadau am y modiwl chwaraeon, mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd o 2,500 o argraffiadau a geir yn arferol.

### Sports module

The Commissioner worked with Sports Wales to develop an online module to encourage community sports leaders to use as much Welsh as possible on the sports field.

The module will be used by different associations and sports, and the WRU, Cricket Wales, Ospreys in the Community and FAW Trust have already committed to using the module as part of their training programmes.

The initiative was supported by international rugby stars Rhys Patchell and Ken Owens and the Wales forwards coach Robin McBryde, as well as the Cardiff-based comedian Mike Bubbins. The module was launched in the company of Mike Bubbins and members of Cardiff Welsh RFC under eights and the Minister for Culture, Tourism and Sport at Sports Wales. The module is available at clubsolutions.wales.

Twitter statistics for the @Hybu\_Cymraeg account, which focuses on the Commissioner's work with third sector businesses and organisations, showed over 28,000 impressions for tweets about the sports module, compared with 2,500 impressions on average normally.

**Uchafbwyntiau eraill**

- Cynnal dau gyfarfod o'r fforwm bancio a chymdeithasau adeiladu. Roedd uwch reolwyr o saith o'r prif sefydliadau yn bresennol yn y cyfarfodydd. Yn ogystal â rhoi cyfle i'r sefydliadau rannu arferion da a thrafod heriau, cafwyd cyflwyniadau gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, RWG Mobile a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.
- Cyflwynwyd canfyddiadau ymchwil am werth y Gymraeg i gyfarfod o'r fforwm archfarchnadoedd, mewn cyfarfod a drefnwyd ar y cyd â Chonsortiwm Manwerthu Cymru.
- 198 o fusnesau ac elusennau wedi defnyddio'r holiadur ar lein i asesu eu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynllunio i greu mwy o wasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys 80 busnes neu elusen ficro (hyd at 10 aelod staff neu wifoddolwyr); 63 busnes neu elusen ganolig (hyd at 50 aelod o staff neu wifoddolwyr); 55 busnes neu elusen fawr (dros 50 o staff neu wifoddolwyr).
- Cynnal 8 sesiwn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg i dros 70 o unigolion yn cynrychioli 60 sefydliad. Cafodd y rhain eu trefnu drwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y Gronfa Loteri Fawr a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol ac wrth ymgeisio am gontactau a grantiau.
- Sefydlu cylchlythr chwarterol i fusnesau a sefydliadau trydydd sector er mwyn rhannu gwybodaeth am ymchwil, arferion llwyddiannus a'r cyngor a'r gefnogaeth ymarferol sydd ar gael.
- 122 o fusnesau ac elusennau wedi defnyddio'r gwasanaeth prawfddarlen. Cynigir lwfans o 1,000 o eiriau i'w prawfddarlen am ddim i fusnesau ac elusennau. Roedd y testun yn cynnwys arwyddion, bwydleni, testun gwefan, posteri a llenyddiaeth hyrwyddo.


**Other highlights**

- Held two meetings of the banking and building society forum. Senior managers from seven of the main organisations were present at the meeting. As well as allowing them to share good practice and discuss challenges, there were presentations from the National Centre for Learning Welsh, RWG Mobile and the Minister for Lifelong Learning and the Welsh Language.
- Presented research findings into the value of the Welsh language to the supermarkets' forum, in a meeting arranged jointly with the Welsh Retail Consortium.
- A total of 198 businesses and charities have used the online questionnaire to assess their Welsh language provision in order to plan to develop more services in Welsh. These included 80 micro businesses or charities (with up to 10 members of staff or volunteers); 63 medium sized businesses or charities (with up to 50 members of staff or volunteers); and 55 large businesses or charities (with over 50 members of staff or volunteers).
- Held 8 training sessions on the use of Welsh for over 70 individuals representing 60 organisations. These were arranged in partnership with WCVA, the Big Lottery Fund and the Arts Council of Wales.
- Published guidance on the use of Welsh on social media and when applying for contracts and grants.
- Established a quarterly newsletter to businesses and third sector organisations to share information on research, successful practices and the practical advice available.
- 122 businesses and charities have used the proofreading service. A total of 1,000 words can be proofread free of charge. Text included signage, menus, web text, posters and promotional material.


# Polisi

56

Cyhoeddi nodyn briffio ac argymhellion am ddatblygu defnydd o'r Gymraeg mewn **gofal plant** ac addysg Blynnyddoedd cynnar



Cyhoeddi nodyn briffio ac argymhellion am gynyddu nifer y **prentisiaethau** cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog



Cyflwyno **tystiolaeth lafar i** bwyllgorau'r Cynulliad a San Steffan ar 2 achlysur



Cyflwyno **tystiolaeth i** ymchwiliadau ac ymgynghoriadau ar  
**33** achlysur



**135** o gyfeiriadau at waith y Comisiynydd yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol



**54** o gyfeiriadau at waith y Comisiynydd mewn cyfarfodydd pwyllgor yn y Cynulliad



**38** o adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad yn cyfeirio at dystiolaeth ac argymhellion y Comisiynydd




**16** o gyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r DU ac Aelodau Cynulliad




# Policy

57

Published a briefing note and recommendations on developing the use of Welsh in **childcare** and early years education



Published a briefing note and recommendations on increasing the number of Welsh-medium or bilingual **apprenticeships**



Presented **oral evidence** to Assembly and Westminster committees on 2 occasions



Presented evidence to inquiries and consultations on  
**33** occasions



**135** references to the Commissioner's work during Plenary meetings in the National Assembly



**54** references to the Commissioner's work during Assembly committee meetings



**38** Assembly committee reports referred to the Commissioner's evidence and recommendations



**16** meetings held with WG and UK Government Ministers and AMs



Mae'r Pwyllgor wedi ystyried barn y Comisiynydd nad yw elfennau penodol o'r Bil yn adlewyrchu ei uchelgais a'r her i'r Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chais y Comisiynydd am ychwanegu unfed nod craidd ar ddeg ar gyfer y Bil er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ADY dwyieithog yn cael eu darparu" (Adroddiad ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg).

The Committee has considered the view of the Commissioner that specific elements of the Bill do not reflect its ambition and the challenge for the Welsh language. The Committee agrees with the Commissioner's call for an eleventh core aim for the Bill to ensure the delivery of bilingual ALN services" (Report on the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill, Children, Young People and Education Committee).

Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y Comisiynydd laith a'r Gweinidog fod gormod o awdurdodau lleol wedi bod yn segur o ran ysgogi ac asesu galw am y cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg" (Gwired du'r Uchelgais: Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu).

The committee shares the concern of the Language Commissioner and the Minister that too many Local Authorities have been inactive in stimulating and assessing demand for increased Welsh medium provision" (Achieving the Ambition: Inquiry into the Welsh Government's new Welsh Language Strategy, Culture, Welsh Language and Communications Committee).

## Nodiadau briffio

Un o ganfyddiadau Adroddiad Pum Mlynedd ar Sefyllfa'r Gymraeg a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ym mis Awst 2016 oedd mai yn yr ysgol y mae pedwar allan o bob pum plentyn bellach yn dysgu'r iaith. Mae addysg, felly, yn rhan hollbwysig o'r jig-so i gyrraedd y miliwn o siaradwyr.

60

O edrych ar y sector addysg, fe ddaeth hi'n amlwg fod sawl dolen wan yn y llwybr addysgol ar hyn o bryd, sy'n golygu nad yw'r gyfundrefn addysg yn cynhyrchu gymaint o siaradwyr Cymraeg ag y gallai, a bod colli cyfleoedd yn digwydd. Roedd hyn yn arbennig o wir ym maes gofal plant a'r blynnyddoedd cynnar ac mewn rhaglenni prentisiaethau i fyfyrwyr ôl-16. Blaenoriaethwyd y meysydd hyn, felly, a chyhoeddwyd dau nodyn briffio cynhwysfawr yn cyflwyno ffeithiau ac yn rhoi argymhellion ar gyfer datblygu.

### Gofal plant a'r blynnyddoedd cynnar

- Mae'r ffigyrâu'n dangos fod rhwng 80 a 85% o'r plant sy'n cael eu cyflwyno i'r Gymraeg yn y cyfnod hwn yn trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.
- Serch hynny, Saesneg yw prif iaith 77% o ddarparwyr gofal plant yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Argymhellwyd bod y Llywodraeth yn ystyried y Gymraeg wrth gynllunio, ariannu a gweithredu cynlluniau gofal plant ac addysg blynnyddoedd cynnar yn y dyfodol.

### Prentisiaethau

- Fel y mae'r safonau'n dod i rym a nifer cynyddol o fusnesau a sefydliadau eraill yn troi at gynyddu eu defnydd o'r iaith, mae yna alw cynyddol am weithlu sy'n medru'r Gymraeg.
- Er hyn, dim ond 0.3% o holl raglenni prentisiaeth yng Nghymru sy'n rhai cyfrwng Cymraeg, a 3% yn ddwyieithog.
- Mae hon yn sefyllfa sydd wedi aros yn ei hunfan ers 2011-12.
- Yn ei nodyn briffio, argymhellodd y Comisiynydd y dylai Llywodraeth Cymru osod targed ar gyfer cynyddu'r prentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

## Briefing notes

One of the findings of the Commissioner's Five-year Report on the Position of the Welsh Language, published in August 2016, was that four out of every five child now learn Welsh at school. Therefore, education plays a key role in reaching a million Welsh speakers.

61

Looking at the education sector, it became apparent that there were several weak links in the educational path as it currently stands, which means that the education system does not produce as many Welsh speakers as it could, with opportunities being missed. This was especially true in terms of childcare and early years provision and post-16 apprenticeship programmes. These areas were therefore prioritised and two comprehensive briefing notes were published providing facts and making recommendations for development.

### Childcare and early years provision

- The figures show that 80-85% of children introduced to the Welsh language during this period transfer to Welsh-medium primary education.
- However, English is the main language of 77% of childcare providers in Wales at present.
- It was recommended that the Government should consider the Welsh language when planning, funding and implementing childcare schemes and early years education in future.

### Apprenticeship programmes

- As the standards come into force and an increasing number of businesses and other organisations look to increase their use of Welsh, there is increased demand for a workforce which can speak Welsh.
- Despite this, only 0.3% of all apprenticeship programmes in Wales are Welsh-medium, and 3% are bilingual.
- This situation has remained unchanged since 2011-12.
- In her briefing note, the Commissioner recommended that the Welsh Government should set a target for increasing the number of Welsh-medium apprenticeships.

**Uchafbwyntiau eraill**

- Cyflwyno tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i 33 o ymgynghoriadau ac ymchwiliadau er mwyn sicrhau ystyriaeth i'r Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys pynciau fel gofal iechyd, Brexit, diwygio trefniadau etholiadau lleol, darlleu a'r economi ymysg eraill.
- Ymateb i Bapur Gwyn Bil y Gymraeg, gan dynnu sylw'n benodol at bwysigrwydd cynnal y momentwm a enillwyd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf a'r angen i beidio â gwanhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw fodd.
- Cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad i wella iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. Nododd y Pwyllgor ei fod yn cytuno â sylwadau'r Comisiynydd ar y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc ac argymhellodd bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc yn gwneud darn penodol a chynhwysfawr o waith ar y gwasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael yn Gymraeg. Yn ei ymateb i'r adroddiad cytunodd y Llywodraeth â'r argymhelliaid hwn.
- Cyhoeddi papur safbwyt ar sefyllfa S4C gan nodi pwysigrwydd y sianel wrth greu siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r iaith.
- Cydweithio â'r Gymdeithas Alzheimer's i gasglu profiadau cleifion o ofal dementia yn y Gymraeg. Bydd yr wybodaeth yn sail i argymhellion ar sut i gynllunio'r gwasanaethau'n well yn y dyfodol.
- Cyfrannu at adroddiad Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gan dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau fod gan y gweithlu'r sgiliau angenhediol i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cydweithio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghori Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar sut i ystyried y Gymraeg yn eu cynlluniau llesiant lleol.
- Tynnu sylw'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, y Cwnsler Cyffredinol a Chymdeithas y Gyfraith at bryderon na ellir sefyll arholiad i gymhwysos fel cyfreithiwr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb, mae'r Awdurdod Rheoleiddio wedi cadarnhau y bydd yn cyfeirio at bwysigrwydd sgiliau ac addysg gyfreithiol yn Gymraeg mewn rheoliadau yn y dyfodol.

62


**Other highlights**

- Presented oral and written evidence to 33 consultations and inquiries in order to ensure consideration of the Welsh language. These included topics such as healthcare, Brexit, reforming local election arrangements, broadcasting and the economy.
- Responded to the Welsh Language Bill White Paper, highlighting the importance of maintaining the momentum gained in recent years and the need to avoid weakening the rights to use Welsh in any way.
- Provided evidence to the Assembly's Children, Young People and Education Committee on the Emotional and Mental Health of Children and Young People. The Committee noted that it agreed with the Commissioner's comments on the Together for Children and Young People (T4CYP) programme and recommended that the Welsh Government ensure T4CYP undertakes a comprehensive piece of work on the current and future availability of Welsh language emotional and mental health support services. In its response to the report the Government agreed to this recommendation.
- Published a position paper on S4C identifying the importance of the channel in creating Welsh speakers and increasing the use of Welsh.
- Worked with the Alzheimer's Society to collect patient experiences of dementia care in Welsh. The information will form the basis of recommendations on how to plan services better in future.
- Contributed to the report of the North Wales Ambition Board highlighting the importance of ensuring that the workforce has the required skills to work through the medium of Welsh.
- Worked with the Future Generations Commissioner to advise Public Service Boards on how to consider the Welsh language in their local well-being plans.
- Informed the Solicitors Regulation Authority, the Counsel General and Law Society of concerns that it is not possible to sit an exam to qualify as a solicitor in Welsh. In response, the Regulation Authority has confirmed that it will refer to the importance of legal skills and education through the medium of Welsh in future regulations.

63


# Isadeiledd

64



**100%**

o awdurdodau lleol  
Cymru wedi derbyn  
argymhellion ar enwau  
lleoedd safonol erbyn hyn



**665**

o enwau newydd wedi  
eu hychwanegu i'r gronfa  
enwau lleoedd eleni

Aelod cyswllt  
o Grŵp Llywio  
Enwau Lleoedd  
Hanesyddol  
Cymru



Dros


**2.2m**

chwiliad yng Ngeiriadur  
yr Academi Ar-lein




# Infrastructure

65



**100%**

of local authorities in Wales  
given recommendations on  
standardised place-names



**665**

new names added to the place-  
name database this year

Associate  
member of  
the Historical  
Place-names  
of Wales  
Steering Group



Over

**2.2m**

searches in the online  
Welsh Academy Dictionary



**Enwau lleoedd**

Mae enwau lleoedd yn rhan hanfodol o'n hanes a'n hunaniaeth; maent yn datgelu rhywbeth am y lle ac am ein hanes fel pobl. Gall diffyg dealltwriaeth neu ddifyg parch at enwau Cymraeg fod yn tu hwnt o niweidiol i statws yr iaith.

66

Mae'r Comisiynydd wedi cynnull Panel Safoni Enwau Lleoedd i gynnig cyngor arbenigol ac argymhellion annibynnol yn y maes hwn. Wrth lunio'i argymhellion mae'r panel yn ystyried ystyr, hanes a tharddiad yr enwau lleoedd ynghyd â'r defnydd a wneir ohonynt. Bydd hefyd yn defnyddio canllawiau safoni penodol.

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r panel yn ystod y flwyddyn a chwblhawyd tri phrosiect i safoni enwau pentrefi a threfi yng Nghymru.

Bellach mae'r panel wedi cyflwyno argymhellion ar enwau lleoedd i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Bu gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cronfa genedlaethol o enwau lleoedd. Y bwriad yw cyhoeddi'r gronfa ar-lein fel y gall unrhyw un chwilio am ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru yn ystod haf 2018.

**Uchafbwyntiau eraill**

- Rhoi argymhellion a nodiadau esboniadol manwl i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru am ffurfiau safonol enwau wardiau mewn chwe awdurdod lleol wrth iddynt gynnal rhaglen o arolygon etholiadol.
- Aelod cyswllt o Grŵp Llywio Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru sy'n cynghori'r Comisiwn Henebion wrth iddynt gynnal y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol ar ran Llywodraeth Cymru.
- Diwygio'r canllaw cyfieithu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion newydd y safonau a cheisio annog sefydliadau i wneud defnydd cyfrifol ond arloesol o dechnoleg. Bydd y canllaw diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod adrodd nesaf ond rhoddwyd rhagflas o'i gynnwys mewn cynhadledd genedlaethol a drefnwyd gan y cwrs astudiaethau cyfieithu yn Aberystwyth.
- Yn rhan o'r gwaith o sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei datblygu mewn meysydd o flaenoriaeth, mae'r Comisiynydd yn aelod o Fwrdd Technoleg Llywodraeth Cymru, Consortiwm Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Grŵp Llywio'r Prosiect Ymchwil Adfywio.
- Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gynnal Geiriadur yr Academi Arlein. Yn ystod y flwyddyn, profodd i fod yn adnodd gwerthfawr, gyda dros 2.25m o chwiliadau am eiriau ynddo.

**Place-names**

Place-names are an integral part of our history and identity; they reveal something about a place and our history as people. A lack of understanding or lack of respect towards Welsh place-names can have a detrimental impact on the status of the language.

67

The Commissioner has convened a Place-names Standardisation Panel to provide expert advice and independent recommendations in this field. In forming its recommendations, the panel considers the meaning, history and etymology of the place-names, as well as their usage. It will also use specific standardisation guidance.

Three panel meetings took place during the year and three projects to standardise the names of Welsh towns and villages were completed. The panel has now made recommendations on place-names to every local authority in Wales.


Work has been ongoing to develop a national database of place-names. The intention is to publish the database online so that anyone can access it to search for the standardised forms of Welsh place-name by the summer of 2018.

**Other highlights**

- Provided recommendations and explanatory notes to the Local Democracy and Boundary Commission for Wales on the standardised forms of ward names in six local authorities during its programme of electoral reviews.
- Associate member of the Historical Place-Names of Wales Steering Group who advise the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales as they undertake the work of drawing up the List of Historical Place-names on behalf of the Welsh Government.
- Revised the translation guidance to ensure that it reflects the new requirements of the standards and encourages organisations to make responsible but innovative use of technology. The revised guidelines will be published during the next reporting period but a taster was given at a national conference arranged by the translation studies course at Aberystwyth University.
- As part of the work of ensuring that the Welsh language is developed in priority areas, the Commissioner is a member of the Welsh Government's Technology Board, Coleg Cymraeg Cenedlaethol's Translation Studies Consortium and the Revitalise Research Project Steering Group.
- The Commissioner is responsible for maintaining the on-line Welsh Academy English-Welsh Dictionary. During the year, it has proven to be a valuable tool, attracting over 2.25m searches.

# Cyfathrebu

68



Ymgrych farchnata 'Mae gen i hawl' yn tynnu sylw at hawliau newydd myfyrrwr i ddefnyddio'r Gymraeg

Dosbarthu  
**35,842**  
o fathodynnau a  
**30,521**  
o gortynnau gwddf laith Gwaith



**5,430**  
o ddilynwyr ar Twitter



**1.3m**  
o argraffiadau i drydariadau

**233**  
o gyfeiriadau at y Comisiynydd yn y wasg brint neu ar-lein



**77**  
o ddatganiadau a chyweliadau i'r wasg a'r cyfryngau



Stondinu yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol




Cadeirio a chynnal ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Ryngwladol y **Comisiynwyr laith**



Cynnal Cynhadledd **Flynnyddol** Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr laith yng Nghaerdydd

# Communications

69



My language rights' marketing campaign highlighting new rights for students to use Welsh

**35,842** laith Gwaith badges and  
**30,521** lanyards distributed



**5,430** Twitter followers



**1.3m** impressions for tweets

**233** references to the Commissioner in the printed press or online



**77** press and media releases and interviews



Stands at the **Urdd Eisteddfod** and the **National Eisteddfod**



Chair and secretariat for the International Association of **Language Commissioners**



Hosted the **Annual Conference** of the International Association of Language Commissioners in Cardiff

### Ymgyrch farchnata 'Mae Gen i Hawl'

Ar 1 Ebrill 2018 fe ddaeth safonau'r Gymraeg yn weithredol i golegau a phrifysgolion Cymru, a thrwy hynny sefydlwyd hawliau i fyfyrwyr ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â nhw. Er mwyn tynnu sylw at yr hawliau newydd, cynhalwyd ymgyrch farchnata wedi ei thargedu'n benodol at fyfyrwyr yn cyflwyno gwybodaeth am ba wasanaethau allant eu disgwyl yn Gymraeg o hyn ymlaen. Wrth baratoi'r ymgyrch, fe fu cydweithio agos rhwng Tîm Cyfathrebu'r Comisiynydd a swyddogion o fewn y colegau a'r prifysgolion, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ColegauCymru, a swyddogion undeb myfyrwyr. Cynhalwyd sesiynau trafod syniadau gyda grwpiau o fyfyrwyr mewn gwahanol golegau.

Cafodd yr ymgyrch ei lansio yn nawns yr Eisteddfod Ryng-golegol a gynhalwyd ar gampws Llanbedr Pont Steffan Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ym mis Mawrth 2018.

Bydd yr ymgyrch yn parhau yn 2018-19 er mwyn tynnu sylw to newydd o fyfyrwyr at eu hawliau.

### Gwaith Rhyngwladol

Bu Meri Huws yn Gadeirydd ar Gymdeithas Rhyngwladol y Comisiynwyr er 2016. Prif nod y Gymdeithas yw cefnogi a hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb ac amrywiaeth ieithyddol ledled y byd a chefnogi comisiynwyr iaith fel eu bod yn gallu gweithio gan gadw at y safonau proffesiynol uchaf.

Croesawyd aelodau'r Gymdeithas i Gymru am y tro cyntaf ym mis Mai 2017 ar gyfer eu cynhadledd flynyddol. Lanswyd yr ymweliad mewn digwyddiad i ddathlu hanner canmlwyddiant Deddf yr Iaith Gymraeg, gydag anerchiadau gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, Llywydd y Cynulliad, Elin Jones AC a'r Gwir Anrhydeddus Syr David Lloyd Jones, Arglwydd Ustus Apêl.

Thema'r gynhadledd oedd 'Iaith Gwaith: Pwysigrwydd technoleg a chynllunio strategol i'r gweithle dwyieithog' a chafwyd cyfraniadau bywiog gan siaradwyr rhyngwladol yn ogystal â siaradwyr o Gymru. Mae pob un o'r anerchiadau wedi eu ffil mio a cheir dolenni hwylus atynt ar wefan y Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi bod yn gyfrifol am ysgrifenyddiaeth y Gymdeithas er 2015. Yn ogystal â chyfarfodydd chwarterol yr aelodau cynhalwyd rhaglen o weminarau er mwyn hyfforddi a rhannu gwybodaeth ymhliith swyddogion.

### 'My Language Rights' marketing campaign

On 1 April 2018 the Welsh language standards for colleges and universities in Wales came into force, and with it the establishment of rights for students to use the language in their dealings with them. To draw attention to the new rights, a marketing campaign was conducted specifically targeting students with information about the services they can expect to be available in Welsh from now on. In preparing the campaign, the Commissioner's Communication Team worked closely with officers from the colleges and universities, the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CollegesWales, and student union officers. Campaign ideas sessions were held with groups of students in different colleges.

The campaign was launched at the Inter-collegiate Eisteddfod dance held on Trinity Saint David University's Lampeter campus in March 2018.

The campaign will continue in 2018-19 to make a new cohort of students aware of their rights.

### International Work

Meri Huws has chaired the International Association of Language Commissioners since 2016. The main aim of the Association is to support and promote linguistic rights, equality and diversity across the world and support language commissioners so that they can uphold the highest professional standards in their work.

Members of the Association were welcomed to Wales for the very first time in May 2017 for their annual conference. The guests were welcomed at an event celebrating the 50th anniversary of the Welsh Language Act, with speeches from the First Minister, Carwyn Jones AM, the Assembly's Presiding Officer, Elin Jones AM, and the Right Honourable Sir David Lloyd Jones, Lord Justice of Appeal.

The theme of the conference was 'Iaith Gwaith: The importance of technology and strategic planning for the bilingual workplace' and there were lively contributions from international speakers as well as speakers from Wales. Each speech was recorded and can be accessed on the Commissioner's website.

The Commissioner has also been responsible for the Association's secretariat since 2015. As well as quarterly meetings for members, a programme of webinars took place in order to provide guidance and share information with officers.

### Uchafbwyntiau eraill

- Stondin yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.
- Trefnu digwyddiad ar y cyd â Cholegau Cymru yn Eisteddfod yr Urdd yn galw am fuddsoddi a chynllunio strategol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg ôl-16.
- Arwain trafodaeth yn y Sioe Fawr am gyfraniad y gymuned amaethyddol i'r iaith Gymraeg; yr angen am strategaeth ar gyfer denu pobl ifanc i mewn i'r diwydiant amaeth a chynyddu'r niferoedd sy'n dilyn cyrsiau amaethyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnal trafodaeth banel am y defnydd o'r Gymraeg ym myd y gyfraith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yng nghwmni'r Barnwyr Nicolas Parri a Hywel James a'r Athro Elwen Evans QC.
- Arwain trafodaeth banel yn yr Eisteddfod Genedlaethol am bwysigrwydd cael mwy o siaradwyr Cymraeg i weithio yn y maes iechyd meddwl.
- Ailstrwythuro'r wefan er mwyn ei gwneud yn fwy hygrych i ddefnyddwyr.

### Other highlights

- Stands at the Urdd Eisteddfod and the National Eisteddfod.
- Event organised jointly with CollegesWales at the Urdd Eisteddfod calling for strategic investment and planning to increase Welsh language provision in post-16 education.
- Led a discussion at the Royal Welsh Show on the contribution of the agricultural community to the Welsh language; the need for a strategy to attract young people into the farming industry and to increase the numbers studying agriculture through the medium of Welsh.
- Held a panel discussion on the use of Welsh in law at the National Eisteddfod, in the company of Judges Nicolas Parri and Hywel James and Professor Elwen Evans QC.
- Led a panel discussion at the National Eisteddfod on the importance of attracting more Welsh speakers to work in mental health.
- Restructured the website to make it more accessible.

# Rheoli a gweithredu

74

## Mae'r Comisiynydd yn rhoi pwyslais ar weithredu'n effeithiol ac effeithlon.

Yn yr adran hon, ceir sylwebaeth am berfformiad ariannol y sefydliad, materion cydraddoldeb, materion amgylcheddol, materion staff, rhyddid gwybodaeth a chwynion yn erbyn y sefydliad.

# Management and operation

75

## The Commissioner places an emphasis on effective and efficient operation.

In this section, commentary is provided on the organisation's financial performance, equality issues, environmental issues, staff issues, freedom of information and complaints against the organisation.

# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

76

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Y cyllid a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2018 oedd £3,051,000 (2016-17: £3,051,000). Y gwariant net ar ôl llog yn ystod y flwyddyn oedd £3,249,000 (2016-17: £3,055,000), a'r gwariant ar gyfalaf oedd £35,000 (2016-17: £18,000). Ar 31 Mawrth 2018 roedd £501,000 yn y gronfa gyffredinol (31 Mawrth 2017: £699,000).

	2016-17 Alldro £000	2017-18 Alldro £000	2017-18 Cyllideb <sup>1</sup> £000	2018-19 Cyllideb <sup>2</sup> £000
Costau swyddogion	2,112	2,169	2,385	2,231
Gweinyddu				
Llety: Rhent	119	120	120	125
Llety: costau eraill	172	141	142	165
Dadfeiliadau swyddfa	6	20	-	-
Teithio a chynhaliaeth	68	84	74	75
Hyfforddiant a recriwtio	33	37	35	27
Cyfreithiol a phroffesiynol	114	205	144	127
Technoleg gwybodaeth	141	134	143	139
Cyfathrebu	32	37	37	40
Archwiliwyr allanol	15	15	15	15
Gweinyddu arall	48	53	49	48
	748	846	759	761
Rhagleni	221	261	289	141
Cyfalaf a dibrisiant	44	36	50	47
<b>Gwariant Net</b>	<b>3,125</b>	<b>3,312</b>	<b>3,483</b>	<b>3,180</b>
Incwm	(69)	(63)	(63)	(47)
Llog a dderbyniwyd	(1)	-	-	-
<b>Gwariant net ar ôl llog</b>	<b>3,055</b>	<b>3,249</b>	<b>3,420</b>	<b>3,133</b>

<sup>1</sup> Cyllideb fewnol diwygiedig cytunwyd gan y Tîm Rheoli ym mis Mehefin 2017

<sup>2</sup> Cyllideb fewnol derfynol cytunwyd gan y Tîm Rheoli ym mis Mehefin 2018

# Commentary on financial performance

77

The Welsh Language Commissioner is a corporation sole funded by Welsh Ministers. The funding allocated by Welsh Ministers for the year 1 April 2017 to 31 March 2018 was £3,051,000 (2016-17: £3,051,000). The net expenditure after interest for the year was £3,249,000 (2016-17: £3,055,000), with capital expenditure of £35,000 (2016-17: £18,000). At 31 March 2018 the general reserve was £501,000 (31 March 2017: £699,000).

	2016-17 Outturn £000	2017-18 Outturn £000	2017-18 Budget <sup>1</sup> £000	2018-19 Budget <sup>2</sup> £000
Officers' costs	2,112	2,169	2,385	2,231
Administration				
Accommodation: Rent	119	120	120	125
Accommodation: other costs	172	141	142	165
Office dilapidations	6	20	-	-
Travel and subsistence	68	84	74	75
Training and recruitment	33	37	35	27
Legal and professional	114	205	144	127
Information technology	141	134	143	139
Communication	32	37	37	40
External audit fee	15	15	15	15
Administration other	48	53	49	48
	748	846	759	761
Programme costs	221	261	289	141
Capital and depreciation	44	36	50	47
<b>Net Expenditure</b>	<b>3,125</b>	<b>3,312</b>	<b>3,483</b>	<b>3,180</b>
Income	(69)	(63)	(63)	(47)
Interest receivable	(1)	-	-	-
<b>Net expenditure after interest</b>	<b>3,055</b>	<b>3,249</b>	<b>3,420</b>	<b>3,133</b>

<sup>1</sup> Revised internal budget approved by the Management Team in June 2017

<sup>2</sup> Final internal budget approved by the Management Team in June 2018

# Sylwadau ar yr Amcangyfrif, y gyllideb a'r alldro yn y cyfnod

78

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae'n ofynnol i mi, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i gyflwyno amcangyfrif o wariant i Weinidogion Cymru. Yn dilyn nifer o flynyddoedd lle derbyniwyd toriadau olynol i'r gyllideb, ar 03/10/2017 cyflwynwyd Amcangyfrif 2018-19 am £3.239m yn adlewyrchu'r adnoddau ariannol sydd eu hangen er mwyn i'r sefydliad weithredu ei strategaeth a'i gynllun gweithredu ac i gyflawni ei swyddogaethau a'i dyletswyddau. Yn dilyn cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dyrannwyd cyllideb o £ 3.051m ar gyfer 2018-19.

Yng nghyd-destun dyrannu cyllideb ar yr un lefel â 2016-17, rhagolwg mewnol ar gyfer aldro'r flwyddyn ariannol 2016-17 ac o ganlyniad lefel y cronfeydd cyffredinol wrth gefn, lluniwyd cyllideb fanwl ar gyfer 2017-18 cyn ddechrau'r flwyddyn ariannol ac fe'i diwygiwyd ar ddiwedd mis Mehefin 2017.

Mae'r gyllideb diwygiedig y cytunwyd arni ar gyfer 2017-18 yn rhagweld gorwariant o £369,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae'r gorwariant a gynlluniwyd yn gam ystyrlon sy'n gwneud defnydd pwrpasol o'r cronfeydd wrth gefn dros y tymor canolig. Mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r bylchau yn y strwythur sefydliadol a ddigwyddodd yn 2016-17, drwy flaenoriaethu adnoddau ar staff i sicrhau bod y strwythur yn cael yr adnoddau llawn. Mae hyn yn allweddol i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei strategaeth ac i gyflawni ei ddyletswyddau. Hefyd mae cyllideb addas wedi ei neilltuo ar gyfer cyflawni rhagleni pwrpasol.

Rhagwelir bydd y cynlluniau hyn yn gwneud defnydd o'r cronfeydd wrth gefn dros y tymor canolig, gan gynllunio bod lefel y cronfeydd yn gyson ag egwyddor y Comisiynydd ei bod yn ddarbodus cadw cronfa wrth gefn o tua £150,000, sy'n hafal â 5% o wariant, ar gyfer gwariant annisgwyl yn ogystal â £100,000 ar gyfer costau cyfreithiol at bwrpas amddiffyn neu gefnogi achosion yn y llysoedd neu'r Tribiwnlys.

# Commentary on the Estimate, budget and outturn for the period

79

As Accounting Officer I am required, in accordance with the Welsh Language Measure (Wales) 2011, to submit an estimate of expenditure to Welsh Ministers. Following a number of years where successive cuts to the budget were received, the 2018-19 Estimate was submitted on 03/10/2017 for £3.239m which reflected the financial resources required for the organisation to implement its strategy and operating plan and to fulfil its functions and duties. Following approval of the Welsh Government's budget by the National Assembly for Wales a budget of £3.051m was allocated for 2018-19.

In the context of an allocated budget at the same level as 2016-17, the internal forecast for the outturn for the 2016-17 financial year and the consequent level of general reserves; a detailed budget was drawn up for 2017-18 and was revised at the end of June 2017.

The revised budget agreed for 2017-18 forecasts overspend of £369,000 for the financial year. This planned overspend is a considered action which makes appropriate use of the reserves over the medium term. This plan addresses the organisational structure gaps that occurred in 2016-17, due to staff turnover, by prioritising resources on staff to ensure that the structure is fully resourced. This is key to enabling the organisation to deliver its strategy and to fulfil its duties. Also an appropriate budget has been set aside for delivering appropriate programmes.

It is forecast that these budgets make use of reserves over the medium term, whilst planning that reserves are consistent with the Commissioner's principle that it is prudent to maintain a reserve of about £150,000, equal to 5% of expenditure, for unforeseen expenditure plus £100,000 for legal costs for the purpose of defending or supporting cases in the courts or Tribunal.

## Costau swyddogion

Roedd costau cyflogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 ychydig yn uwch na gwir gostau 2016-17 ac yn sylweddol llai na'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Y prif resymau dros yr arbedion yn erbyn y gyllideb oedd effaith swyddi yn y strwythur yn aros yn wag am gyfnodau yn ystod yn flwyddyn oherwydd trosiant staff gyda arbediad pellach wrth benodi swyddogion newydd ar rychwant isaf y bandiau cyflog. Hefyd bu lleihad yn oriau gwaith rhai swyddogion, a 1.6 swydd cywerth y pen heb eu penodi yn ystod y flwyddyn.

## Officers' costs

Employment costs for the financial year 2017-18 were slightly higher than actual costs for 2016-17 and significantly lower than budget for the year. The primary reasons for the savings against budget was the impact of roles in the structure being vacant for periods due to staff turnover, and further savings due to the appointment of new staff on the lowest increment of the pay bands. Also there was a reduction in working hours for some officers, and roles equivalent to 1.6 FTE not filled during the year.

## Llety

Mae costau gros rhent swyddfa wedi aros yn sefydlog o flwyddyn i flwyddyn ac yn erbyn y gyllideb. Mae cynnydd i gost rhent wedi ei cynllunio yn y gyllideb ar gyfer 2018-19 oherwydd yr angen i symud swyddfa yng Nghaernarfon.

Bu lleihad yng nghostau llety arall yn y flwyddyn i'w gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd hyn wedi ei ragweld a'i gynllunio yn y gyllideb. Y prif ffactorau oedd gostyngiad yng nghostau gwasanaethau a lleihad yn y trethi annomestig ar gyfer swyddfa Caerdydd. Bu cynnydd bach yn y aldro yn erbyn y gyllideb, roedd hyn mewn perthynas a chostau symud swyddfa Caernarfon. Mae cynnydd wedi ei gynllunio ar gyfer costau llety arall 2018-19 oherwydd bod les ar swyddfa Caerdydd yn dod i ben ar ddiwedd mis Rhagfyr 2018 a bydd angen ystyried opsiynau a cynllunio ar gyfer swyddfa addas yn y ddinas.

